

PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Mawrth 31 Ionawr 2019 am 10.00am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies, Rachel Flynn, Hugh Irving (Is-Gadeirydd), Huw Jones (Cadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Bob Murray, Arwel Roberts a David Williams

Aelodau cyfetholedig - Kathy Jones, Neil Roberts a David Lloyd ar gyfer eitem 5.

Roedd yr Aelodau Arweiniol, Y Cynghorwyr Brian Jones, Huw Hilditch-Roberts a Richard Mainon yn bresennol ar gais y Pwyllgor.

Arsylwyr - Y Cynghorwyr Meirick Lloyd Davies, Graham Timms ac Emrys Wynne.

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG), Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant (KE), Uwch Swyddog Gwella Ysgolion – Uwchradd (JM), Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata (LG), Prif Lyfrgellydd (BH), Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (TW), Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu (TD), Cydlynnydd Craffu (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SJ)

Cynrychiolydd GwE - Paul Matthew-Jones

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Martyn Holland

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Derbyniwyd datganiadau o gysylltiad personol ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen, Canlyniadau Arholiadau Allanol a Wiriwyd ac Asesiadau Athrawon, gan y Cynghorwyr:

- Huw Jones, Ilywodraethwr yn Ysgol Carrog ac Ysgol Caer Drewyn
- Ellie Chard, Ilywodraethwr yn Ysgol Tir Morfa
- Hugh Irving, Ilywodraethwr yn Ysgol Uwchradd Prestatyn
- Arwel Roberts, Ilywodraethwr yn Ysgol y Castell ac Ysgol Dewi Sant
- Emrys Wynne, Ilywodraethwr yn Ysgol Borthyn
- Geraint Lloyd-Williams, Ilywodraethwr yn Ysgol y Santes Ffraid
- Huw Hilditch-Roberts fel Ilywodraethwr yn Ysgol Brynhyfryd a rhiant i blentyn mewn ysgol yn Sir Ddinbych

Ynghyd ag:

- Aelod cyfetholedig, Neil Chambers Roberts, llywodraethwr yn Ysgol y Parc ac Ysgol Cefn Meiriadog
- Aelod cyfetholedig, David James Lloyd, llywodraethwr yn Ysgol y Lllys, Prestatyn

3 **MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Dim.

4 **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2018.

Cywirdeb:

Dywedodd yr aelodau mai'r aelod cyfetholedig Neil Roberts a ddatganodd gysylltiad personol gan ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol y Parc.

Materion yn Codi:

Eitem 5 - Canlyniadau Arholiadau Allanol Dros Dro ac Aseidiadau Athrawon - Tudalen 12 - Cadarnhaodd y Cadeirydd bod llythyr wedi'i anfon at Gymwysterau Cymru yn amlygu pryderon y Pwyllgor. Cadarnhaodd hefyd bod ymateb wedi'i dderbyn gan Brif Weithredwr Cymwysterau Cymru.

Dywedodd Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc ei fod wedi derbyn ymateb gan Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, ynglŷn â phryderon y Pwyllgor. Pwysleisiodd y Cyng. Hilditch-Roberts pa mor bwysig yw hi i dderbyn ymateb i bryderon y Pwyllgor er lles plant Sir Ddinbych.

PENDERFYNWYD – *y dylid, yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2018 fel cofnod cywir.*

5 **CANLYNIADAU ARHOLIADAU ALLANOL A WIRIWDYD AC ASESIADAU ATHRAWON**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc adroddiad ar y cyd gan y Prif Reolwr Addysg ac Arweinydd Uwchradd GwE (a gylchredwyd ymlaen llaw) a oedd yn cynnwys gwybodaeth a wiriwyd ar berfformiad disgyblion Cyfnod Allweddol 4 ac ôl 16 ysgolion uwchradd Sir Ddinbych yn ystod arholiadau haf 2018.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y canlyniadau dros dro yng nghyfarfod mis Tachwedd 2018, roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at Brif Weithredwr Cymwysterau Cymru yn mynegi pryderon yr aelodau ynghylch y cynnydd sylweddol yn y trothwy i

gyrraedd gradd 'C' yn arholiadau TGAU haf 2018, yn arbennig yr arholiadau Saesneg, ac effaith andwyol hynny ar fyfyrwyr. Dosbarthwyd copi o'r ymateb a dderbyniwyd gan Brif Weithredwr Cymwysterau Cymru i'r aelodau. Yn ei lythyr mae'r Prif Weithredwr yn mynegi bod pryderon tebyg wedi'u codi gan GwE ac, o ganlyniad, bod adolygiad o'r graddio wedi'i gynnal. Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad bod y trothwy wedi'i newid yn briodol ac felly nad oes angen unrhyw gam gweithredu pellach. Dywedodd yr Aelod Arweiniol bod swyddogion addysg a deiliaid portffolio addysg wedi derbyn ymateb tebyg gan Brif Weithredwr Cymwysterau Cymru, ac o ganlyniad, mae cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer canol mis Chwefror rhwng Cyfarwyddwyr Addysg Gogledd Cymru, deiliaid portffolio addysg, GwE a Phrif Weithredwr Cymwysterau Cymru i drafod dull graddio arholiadau allanol yn y dyfodol er mwyn sicrhau na fydd myfyrwyr yn y dyfodol yn dioddef chwit-chwatrwydd mewn ffiniau graddau. Mae ymarferwyr addysg yn derbyn y ffaith na fydd Cymwysterau Cymru yn cynnal adolygiad pellach o raddau 2018, ac felly maent yn benderfynol na fydd arholiadau'r dyfodol yn destun cyfnewidioldeb o'r fath yn y ffiniau graddio. Cytunodd yr Aelod Arweiniol gyda barn aelodau'r Pwyllgor o ran nad yw Cymwysterau Cymru yn cydnabod effaith ei benderfyniad i weithredu cynnydd o'r fath yn y ffin ar gyfer gradd 'C' ar fywydau a rhagolygon gyrfa nifer o fyfyrwyr.

Bu i'r Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant, Prif Reolwr Addysg ac Arweinydd Uwchradd GwE wneud y sylwadau canlynol:

- Bu iddynt bwysleisio pa mor siomedig yw swyddogion ac aelodau etholedig yn y ffaith nad yw canlyniadau 2018 a wiriwyd wedi newid er ymdrechion y rhanbarth i drafod y pryderon uchod gyda chynrychiolwyr Cymwysterau Cymru, Cydbwyllgor Addysg Cymru (CBAC) a Llywodraeth Cymru ac ati (mae copi o lythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at yr Aelod Arweiniol wedi'i gylchredeg i'r aelodau er gwybodaeth). Tra bod cynrychiolwyr CBAC wedi cwrdd â swyddogion addysg, swyddogion y Gwasanaeth Cyflawni Addysg a deiliaid portffolio yn Rhanbarth Deddwyrain Cymru (rhanbarth y Gwasanaeth Cyflawni Addysg) i drafod pryderon tebyg, mae'r her yn cael ei harwain gan arweinwyr addysg gogledd Cymru (rhanbarth GwE).
- Bu iddynt gynghori, oherwydd eu pryderon, eu bod yn archwilio darpariaethau Deddf Cymwysterau Cymru 2015 mewn perthynas â monopoli CBAC dros arholiadau allanol yng Nghymru i weld a oes modd i ysgolion y sir gofrestru myfyrwyr i sefyll arholiadau a weinyddir gan fyrdau arholi cyfrifol eraill. Cydnabuwyd mai dim ond CBAC sy'n gweinyddu arholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cadarnhawyd, pe bai ffin gradd 'C' arholiadau Saesneg haf 2018 wedi'i osod ar yr un lefel â'r flwyddyn flaenorol y byddai 107 o ddisgyblion eraill yn Sir Ddinbych, neu 700 ar draws Cymru, wedi cyrraedd gradd 'C'.

Ymatebodd Aelod Arweiniol Addysg a swyddogion GwE fel a ganlyn i gwestiynau'r aelodau:

- Bu iddynt gadarnhau bod y bwch ym mherfformiad bechgyn a merched wedi cynyddu yn 2018, gyda mwy o ferched yn ennill Lefel 2 na bechgyn.

Nid yw cymharu canlyniadau o un flwyddyn i'r llall yn ystyrllon ar hyn o bryd oherwydd y newidiadau i ffiniau graddau a nifer y pynciau sy'n cael eu harholi.

- Dywedwyd bod arholiadau CBAC yn cael eu graddio o 'A' i 'E' tra bod byrddau arholi Lloegr yn graddio mewn rhif.
Serch hynny, mae'n ddyletswydd foesol ar benaethiaid i ddewis yr arholiadau gorau ar gyfer eu disgyblion, a dyna pam bod y gwasanaeth yn edrych ar ddarpariaethau Deddf 2015 i weld a oes modd i ddisgyblion y sir sefyll arholiadau a weinyddir gan fyrddau arholi eraill. Maent o'r farn bod angen rhoi pwysau ar CBAC i osod arholiadau sy'n diwallu anghenion disgyblion.
- Cadarnhawyd bod cytundeb ar draws y Deyrnas Unedig y bydd arholiadau Saesneg a mathemateg yn cael eu cynnal yr un pryd ar yr un diwrnod, ac felly nid yw'n bosibl cofrestru ddwywaith ar gyfer yr arholiadau hyn.
- Bu iddynt gynghori bod lefel sylweddol o ansicrwydd yn ysgolion uwchradd y sir o ganlyniad i godi ffiniau graddau arholiadau haf 2018.
Mae wedi ysgwyd hyder penaethiaid adran ac athrawon yn eu gallu i ddarparu ar gyfer eu myfyrwyr. Tra bod gan swyddogion y Gwasanaeth Addysg pob hyder yn eu gallu mae eu hyder yn CBAC a Chymwysterau Cymru wedi lleihau yn aruthrol. Mae swyddogion addysg bellach yn chwilio am sicrwydd ar gyfer y dyfodol, yn arbennig o ran y newidiadau i'r arholiadau gwyddoniaeth a diwygiadau pellach i'r cwricwlwm.
- Bu iddynt gadarnhau bod pob athro yn ymwybodol o'r hyn y mae'r Cyngor a GwE yn ceisio ei wneud i'w cefnogi o ganlyniad i'r siom a gafwyd gyda rhai canlyniadau TGAU yn 2018.
Mae pob pennaeth yn gweithio'n galed i gefnogi staff a disgyblion siomedig ac yn gwneud pob ymdrech i fagu eu hyder, tra bod GwE yn trefnu digwyddiadau hyfforddiant i'w cefnogi.
- Mae pryderon GwE yn adlewyrchu pryderon staff y Gwasanaeth Addysg, ac maent o'r farn na ddylai ffiniau graddau fod yn destun y lefel o gyfnewidioldeb a welwyd yn 2018. Mae GwE yn tracio perfformiad disgyblion ar draws y rhanbarth ac ar hyn o bryd yn tracio ac yn monitro perfformiad 677 o ddisgyblion yn Sir Ddinbych yn erbyn perfformiad disgyblion mewn awdurdodau lleol eraill.
- Dywedwyd, er bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi proffil uchel i'r Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, nad oedd pob myfyriwr yn ei ystyried yn flaenoriaeth gan nad yw pob prifysgol yn ei gydnabod fel cymhwyster, ac felly mae rhai myfyrwyr yn dewis astudio 3 neu 4 pwnc Safon Uwch er mwyn derbyn lle yn eu dewis brifysgol.
- Cadarnhawyd bod gan yr Awdurdod bellach fwy o ddealltwriaeth o anghenion cyfannol disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.
O ganlyniad, mae gwelliant wedi bod ym mherfformiad cynhwysol Lefel 2 yn erbyn y dangosydd hwn yn 2018.
- Cadarnhawyd bod y Cyngor yn ymwybodol o gyfradd uchel y gwaharddiadau tymor byr yn ysgolion uwchradd y sir (gweler Atodiad 3 i'r adroddiad).
Mae'r Awdurdod wedi gweithio'n agos gyda phob ysgol i fonitro'r sefyllfa, i gynnig gwasanaethau ymyrraeth priodol ac i sicrhau bod y polisi yn cael ei roi ar waith mewn modd cyson ymhob ysgol. Mae swyddogion yn hyderus bod ysgolion yn gweithredu'r polisi yn gywir ac, o ganlyniad, yn gwybod ymhle mae pob disgybl yn ystod y diwrnod ysgol. Mae nifer sylweddol o'r

disgyblion sydd wedi'u gwahardd dros dro o ysgolion y sir yn ddisgyblion gydag anghenion ychwanegol neu arbennig. Mae'r cyfnod gwahardd tymor byr hwn yn rhoi amser i drefnu cefnogaeth ac ymyrraeth briodol i gefnogi addysg y disgybl. Nod gwaharddiadau tymor byr yw lleihau nifer y gwaharddiadau parhaol drwy ddarparu gwasanaethau ymyrraeth priodol ar gam cynnar iawn. Mae'n ymddangos bod nifer isel y gwaharddiadau parhaol yn dangos bod y dull hwn yn effeithiol.

- Bu iddynt sicrhau aelodau bod y Cyngor yn pwysleisio bod yn rhaid i ddata ar waharddiadau gynnwys y rhesymau dros wahardd er mwyn trefnu'r gefnogaeth a'r ymyrraeth briodol.

Mae gan nifer o'r disgyblion sydd wedi'u gwahardd broblemau ymddygiad difrifol. Mae gwaith yn cael ei wneud i edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio cyllid TRAC i sefydlu darpariaeth a chefnogaeth i ddisgyblion wedi'u gwahardd ar y safle.

- Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod data gwaharddiadau o'r ysgol yn cael eu casglu yn fisol a'i fod ar gael i bob ysgol at ddibenion cymharu.
- Pwysleisiwyd bod proffiliau ysgolion yn newid.
Tra cydnabyddir bod cyfraddau gwahardd tymor byr yn rhy uchel, materion cymhleth iawn fel rheol sy'n arwain at y penderfyniad i wahardd.
- Mae'n bwysig bod polisïau a data ymddygiad ysgolion yn gywir, ac nad oes disgyblion yn cael eu gwahardd yn anghyfreithlon.
Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar safoni polisïau gwahardd ar draws Cymru.

- Dywedwyd bod cydberthyniad rhwng ffigyrau presenoldeb/absenoliaeth (gweler Atodiad 4) a ffigyrau prydau ysgol am ddim.

Ysgol Uwchradd y Bendigaid Edward Jones sydd â'r nifer mwyaf o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yng ngogledd Cymru, oherwydd bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn byw mewn ardaloedd o amddifadedd uchel. Serch y lefelau uchel o gefnogaeth gan Wasanaeth Addysg y Cyngor, mae problemau o ran arweinyddiaeth yn yr ysgol, ac mae'r Esgobaeth yn ymwybodol ohonynt, sydd wedi arwain at fethu herio a mynd i'r afael ag absenoliaeth a pherfformiad. Nid oes problemau o'r fath yn ei phrif ysgol fwydo, sef Ysgol Mair, ac felly'r gobaith yw y bydd yr ysgol pob oed newydd, Crist y Gair, a fydd yn disodli Ysgol Mair ac Ysgol Uwchradd y Bendigaid Edward Jones ym mis Medi 2019, yn mynd i'r afael â'r problemau yn yr ysgol uwchradd ac yn arwain at welliant parhaus. Mae pennaeth yr ysgol newydd wedi'i benodi'n ddiweddar, a fydd o bosibl yn dechrau ei swydd newydd yn y Pasg, a'r gobaith yw y bydd hynny'n helpu i ddarparu'r gwelliannau disgwylidig. Mae staff y Gwasanaeth Addysg yn hyderus y bydd pob agwedd ar berfformiad a bywyd yr ysgol yn gwella unwaith y mae'r ysgol newydd wedi'i hagor, gan fod hyn wedi digwydd yn Ysgol Uwchradd y Rhyl yn dilyn cwblhau'r ysgol newydd. Mae'r ddwy ysgol yn gwasanaethu ardal o amddifadedd uchel ac wedi profi problemau tebyg.

- Sicrhawyd y Pwyllgor, gan fod y Gwasanaethau Addysg a Phlant yn cael eu rheoli gan un Pennaeth Gwasanaeth, bod gwaith y ddau wasanaeth yn integreiddio'n dda.

O ganlyniad, mae swyddogion y ddau wasanaeth yn gwybod yn union pa blant a theuluoedd sydd angen eu hymyrraeth a'u cefnogaeth.

- Dywedwyd bod rolau a chyfrifoldebau llywodraethwyr ysgol yn eang a chadarnhawyd eu bod yn pryderu nad oes gan bob llywodraethwr y sgiliau priodol i ymgymryd â'r swydd.
Ychydig iawn o bwerau sydd gan y Cyngor mewn perthynas â chyrrff llywodraethu ysgol er gwaethaf y ffaith bod y corff llywodraethu yn ei hanfod yn gyfrifol am redeg yr ysgol a herio perfformiad ac ati. Dan Fframwaith Safonau Ysgol mae bwerau'r Awdurdod Addysg Lleol (AALI) o ran ymyrraeth yn gyfyngedig. Nid oes gan yr AALI unrhyw bŵer mewn perthynas â chadeirydd y corff llywodraethu; mae ei bwerau wedi'u cyfyngu i gynrychiolwyr yr AALI ar y corff llywodraethu. Mae gan Sir Ddinbych Gymdeithas Llywodraethwyr Ysgol sy'n cwrdd bob chwarter, ond nid yw lefelau presenoldeb y cyfarfodydd hyn yn uchel iawn. Fodd bynnag, mae yna llywodraethwyr ysgol ardderchog ar gyrrff llywodraethu sy'n herio ysgolion yn effeithiol ac adeiladol. Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi diddordeb mewn adolygu cyrrff llywodraethu ysgol, ond nid oes cynigion wedi dod i law hyd yma. Mae Cyfarwyddwyr Addysg yn teimlo y dylai adolygiad o'r fath fod yn radical.
- Eglurwyd y gwahaniaeth rhwng gosod targedau lleol, sy'n cael ei wneud gan ysgolion ar lefel leol, a thracio disgyblion sy'n cael ei wneud ar lefel sirol a rhanbarthol.
- Dywedwyd bod Ysgol Uwchradd Prestatyn wedi mabwysiadu dull tebyg i'r un yn Ysgol Brynhyfryd er mwyn gwella perfformiad.
Mae'r system hon, sy'n cynnwys arweinyddiaeth gref a chadarn, herio effeithiol a thracio perfformiad disgyblion yn barhaus, wedi bod yn effeithiol iawn yn Ysgol Brynhyfryd ac, er gwaethaf proffil prydau ysgol am ddim gwahanol Ysgol Uwchradd Prestatyn, mae'r swyddogion yn hyderus y bydd gwelliannau tebyg yn cael eu cyflawni.
- Cadarnhawyd bod perfformiad disgyblion mewn arholiadau TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf wedi aros yn gyson uchel, gyda mwy o ddisgyblion yn Sir Ddinbych, ar gyfartaledd, yn sefyll arholiad iaith gyntaf nag yn unrhyw le arall yng Nghymru.
- Er bod rhai mathau o gyrsiau galwedigaethol yn cael eu darparu yn ysgolion y sir, sy'n galluogi disgyblion i ennill cymwysterau galwedigaethol, nid yw'r cyrsiau hyn yn cael eu darparu fel yr oeddynt rai blynyddoedd yn ôl oherwydd y gofyniad ar ysgolion i ganolbwyntio mwy ar bynciau academaidd.
Ar y cyfan, mae mwy o fudd mewn cynnig cyrsiau galwedigaethol mewn sefydliadau addysg bellach oherwydd argaeledd cyfarpar arbenigol.
Cadarnhawyd bod gan y Cyngor berthynas gref gyda cholegau addysg bellach lleol o ran darparu addysg alwedigaethol.

Wrth grynhoi'r drafodaeth bu i'r Cadeirydd longyfarch yr ysgolion am eu perfformiad da yn ystod arholiadau allanol 2018, gan dynnu sylw at y ffaith bod nifer o ddisgyblion ysgol uwchradd wedi derbyn 'rhagoriaeth' mewn arholiadau galwedigaethol. Bu iddo hefyd fynegi ei siom o ran ymateb Cymwysterau Cymru a sefydliadau eraill i'r pryderon a godwyd mewn perthynas â'r cynnydd sylweddol yn y trothwy i ennill gradd 'C' yn Saesneg ac arholiadau TGAU eraill yn ystod haf 2018. Cytunodd y Cadeirydd i gynnal trafodaeth gyda Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu o ran a ddylai materion yn ymwneud â rheolaeth cyrrff llywodraethu ysgolion gael eu hystyried gan y Pwyllgor Craffu perthnasol.

Cyn cloi'r drafodaeth, bu i aelod cyfetholedig craffu addysg yr Eglwys Gatholig ofyn bod ei diolchgarwch i swyddogion Cyngor Sir Ddinbych am eu cymorth i ddarparu prosiect Ysgol Crist y Gair a phenodi'r pennaeth newydd yn cael ei gofnodi.

Penderfynwyd: - yn amodol ar y sylwadau uchod -

- (i) cydnabod perfformiad ysgolion y sir yn arholiadau allanol 2018 a llongyfarch y disgyblion am eu llwyddiannau;***
- (ii) derbyn a chytuno ar feysydd i'w gwella, fel y nodir yn yr adroddiad;***
- (iii) bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu eto at Brif Weithredwr Cymwysterau Cymru i bwysleisio pryderon parhaus yr aelodau o ran y cynnydd sylweddol i'r trothwy ar gyfer ennill gradd 'C' yn arholiadau TGAU haf 2018 ac effaith canlyniadol hynny ar ddisgyblion, eu rhagolygon gyrfa, ac ar staff y Gwasanaeth Addysg ac ysgolion, ac ar ysgolion yn gyffredinol; a***
- (iv) bod copi o'r llythyr uchod yn cael ei anfon at holl Aelodau Cynulliad sy'n gwasanaethu gogledd Cymru, a'r wasg a'r cyfryngau lleol.***

Yn y fan hon (11.30 a.m.) cafwyd egwyl o 10 munud.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.40 a.m.

6 SAFONAU LLYFRGELL

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Datblygu Seilwaith Cymunedol adroddiad y Prif Lyfrgellydd ar berfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell yn erbyn Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-20 (a gylchredwyd ymlaen llaw). Hefyd wedi'i amlinellu yn yr adroddiad mae cynnydd y gwasanaeth o ran datblygu llyfrgelloedd ar draws y sir yn ganolfannau cymunedol.

Bu i'r Cadeirydd a'r aelodau longyfarch y gwasanaeth am eu perfformiad rhagorol wrth ddarparu yn erbyn y rhan fwyaf o'r Hawliau Craidd a'r Dangosyddion Ansawdd (DA), fel y manylir arnynt yn adroddiad Asesiad Blynyddol yr Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru (gweler Atodiad 4 i'r adroddiad). Bu iddynt hefyd ganmol y Cyngor ar yr ystod o wasanaethau a digwyddiadau a gynigir yn llyfrgelloedd y sir ar gyfer pobl o bob oed, a werthfawrogir yn fawr iawn gan drigolion.

Wrth ymateb i gwestiynau, darparodd yr Aelod Arweiniol, Pennaeth Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Marchnata a'r Prif Lyfrgellydd y sylwadau canlynol:

- Cadarnhawyd bod, yn debyg i wasanaethau eraill, cyllideb y Gwasanaeth Llyfrgell wedi ei lleihau ac, o ganlyniad, nad yw wedi bodloni DA19 (gwariant fesul 1,000 o'r boblogaeth ar ddeunyddiau darllen) o Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.
- Dywedwyd bod DA13 wedi ei fodloni'n rhannol (lefelau staff a chymwysterau) oherwydd bod staff llyfrgelloedd y sir yn darparu ystod o wasanaethau llyfrgell a Siopau Un Alwad.

Er nad yw'r holl aelodau o staff hyn yn llyfrgellwyr cymwys, mae'r ystod o wasanaethau a ddarperir yn llyfrgelloedd y sir yn gofyn am ystod eang o sgiliau ac mae swyddogion yn hyderus bod staff y gwasanaeth yn meddu ar y sgiliau priodol i ddarparu'r gwasanaethau hynny. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth eu bod yn edrych ar ddewisiadau i ddatblygu cymhwyster ar gyfer staff y Gwasanaeth Llyfrgell a fyddai'n cefnogi datblygiad gyrfa o fewn y gwasanaeth. Dywedwyd hefyd bod mwy o ddynion wedi ymgeisio am swyddi gyda'r gwasanaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sy'n groes i'r duedd hanesyddol.

- Cadarnhawyd bod staff llyfrgell yn derbyn hyfforddiant ac yn mynychu sesiynau gloywi sgiliau yn rheolaidd.
Yn y dyfodol agos bydd staff yn derbyn hyfforddiant ar y System Rheoli Llyfrgell a'r system Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid. Cynhaliwyd dwy gynhadledd staff yn ystod flwyddyn, a bu i bob aelod o staff y Gwasanaeth Llyfrgell eu mynychu.
- Ceir pum swydd llyfrgellydd proffesiynol yn y gwasanaeth yn Sir Ddinbych.
- Mae Coleg Llandrillo yn darparu cyrsiau lefel 3 a 7 mewn sgiliau llyfrgell yn ystod y flwyddyn academaidd.
- Mae Gwasanaeth Llyfrgell y Cyngor wedi defnyddio gwirfoddolwyr ifanc ers sawl blwyddyn bellach, a nod y cynllun hwn yw datblygu sgiliau pobl ifanc. Defnyddir gwirfoddolwyr i ategu a chefnogi'r ddarpariaeth, nid yn lle staff llyfrgell cyflogedig. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ar bobl o bob oed eisiau rhoi o'u hamser i wirfoddoli, gyda nifer yn dymuno darparu gwasanaethau gwirfoddol mewn llyfrgelloedd. O ganlyniad mae'r Cyngor yn datblygu Strategaeth Wirfoddoli a Strategaeth Datblygu'r Gweithlu, gyda'r bwriad o gefnogi gwirfoddolwyr i ddatblygu eu sgiliau a pheidio â chyfaddawdu rôl staff hyfforddedig cyflogedig. Nod y Strategaeth Wirfoddoli fydd ychwanegu gwerth at wasanaethau, nid arbed arian.
- Mae'r mater o osod cosbau ariannol am fethu dychwelyd llyfrau ar amser yn cael ei archwilio.
Pe byddai'r arfer yn dod i ben yna byddai hynny'n cael effaith ar incwm y gwasanaeth, felly byddai angen edrych ar gynlluniau cynhyrchu incwm newydd. Yn ogystal, er mwyn sicrhau bod deunyddiau darllen ar fenthyg yn cael eu dychwelyd byddai angen amnest o ryw fath.
- Cadarnhawyd bod gan y gwasanaeth ymgyrch farchnata ar waith ar nifer o lwyfannau'r cyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol.
- Mae gan bob aelod a phreswylwr rôl bwysig i'w chwarae o ran diogelu cynaliadwyedd tymor hir llyfrgelloedd y sir, drwy sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n rheolaidd a hyrwyddo'r gwasanaethau i drigolion.
- Oherwydd y costau ynghlwm wrth adfer hen lyfrau a sicrhau eu bod mewn cyflwr addas i'w gwerthu i drigolion am gost ostyngol, mae'r gwaith hwn bellach yn cael ei wneud gan gwmni preifat gan ei fod yn rhoi cyfle i'r gwasanaeth gynhyrchu ychydig o incwm.
Cynhaliwyd arwerthiant yn ddiweddar o ddeunyddiau darllen dros ben yn Llyfrgell y Rhyl; mae buddion ariannol yr arwerthiant hwn yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd.
- Mae Strategaeth Llyfrgell newydd yn cael ei llunio ar hyn o bryd, gan ganolbwyntio ar gefnogi cadernid cymunedol.

Cyfeiriodd yr aelodau at y berthynas waith dda sy'n bodoli rhwng Cyngor Tref Rhuddlan a staff Llyfrgell Rhuddlan, sy'n darparu gwasanaethau gwerthfawr yn y llyfrgell leol sy'n ganolfan fywiog i'r gymuned; a thynnwyd sylw penodol at y gweithgareddau dementia a gynigir yno. Holwyd a fyddai modd cynnig mwy o wasanaethau gwybodaeth i dwristiaid yn llyfrgell y dref a gofynnwyd i'r aelod lleol siarad efo Arweinydd Tîm Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau'r Cyngor.

Ar ddiwedd trafodaeth y Pwyllgor:

Penderfynwyd: - yn amodol ar y sylwadau uchod -

- (i) canmol y Gwasanaeth Llyfrgell am ei berfformiad yn erbyn Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru; a**
- (ii) cyflwyno adroddiad ar berfformiad y gwasanaeth yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2018-19 i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2019**

7 ADRODDIAD CENEDLAETHOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU AR REOLI GWASTRAFF YNG NGHYMRU

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy cyd-adroddiad y Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu a Phennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd (a gylchredwyd ymlaen llaw). Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno adroddiad cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru, sef Rheoli Gwastraff yng Nghymru: Ailgylchu Trefol (Atodiad 1). Yn ystod ei gyflwyniad dywedodd yr Aelod Arweiniol bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi disgwyl mwy o gydweithio rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, gyda'r bwriad o godi cyfraddau ailgylchu ac, yn sgil hynny, lleihau'r gwastraff a gludir i safleoedd tirlenwi. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud pedwar argymhelliad, y rhan fwyaf at sylw Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi ystyried y pedwar argymhelliad ac mae ei sylwadau a'i ymateb i bob un wedi'u cynnwys yn yr adroddiad eglurhaol.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion i gwestiynau'r aelodau fel a ganlyn:

- Mae'r Cyngor yn croesawu'r cyfle i gefnogi Llywodraeth Cymru i ddeall y costau sy'n amrywio o un awdurdod lleol i'r llall mewn perthynas â gwasanaethau rheoli gwastraff
- Mae argymhellion yr adroddiad yn cefnogi model ailgylchu gwastraff arfaethedig y Cyngor a gymeradwywyd yn ddiweddar gan y Cabinet
- Disgwylir i Lywodraeth y DU ymgynghori yn y dyfodol agos ynghylch diwygio system cyfrifoldeb cynhyrchwyr y DU o ran deunydd pacio. Dan y system newydd arfaethedig byddai cost lawn rheoli gwastraff deunyddiau pacio yn cael ei osod ar y busnesau hynny sydd wedi'u defnyddio, gyda'r bwriad o roi pwysau arnynt i ddylanwadu ar ddyluniad deunydd pacio
- Mae'r Llywodraeth yn archwilio a oes angen newid deunydd pacio/labeli er mwyn egluro i'r cyhoedd pa ddeunyddiau y mae modd eu hailgylchu a pha rai nad oes modd eu hailgylchu
- Bydd trefniadau casgliadau â chymorth yn parhau yn ôl yr arfer pan fydd model ailgylchu gwastraff newydd y Cyngor yn cael ei roi ar waith.

Fodd bynnag, bydd y gwasanaeth yn adolygu'r ddarpariaeth hon yn y dyfodol agos i sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio gan y trigolion hynny sydd angen cymorth

- Yn y gorffennol mae Sir Ddinbych wedi bod yn gyndyn o fabwysiadu model glasbrint Llywodraeth Cymru ar gyfer ailgylchu. Fodd bynnag, mae pethau wedi newid dros amser a byddai symud at fodel glasbrint Llywodraeth Cymru yn yr ychydig flynyddoedd nesaf yn fuddiol i Sir Ddinbych a'i thrigolion oherwydd goblygiadau ariannol peidio â chyrraedd targedau Llywodraeth Cymru.

Er nad yw mabwysiadu model glasbrint Llywodraeth Cymru yn ofyniad statudol mae'r cymhellion ariannol sydd ar gael ar hyn o bryd yn gwneud y model hwn yn fuddiol i'r Cyngor

- Roedd y Cyngor yn cytuno ag argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â gwella dulliau meincnodi cost a pherfformiad er mwyn sicrhau dull cyson at ddibenion dadansoddi data a chymharu
- Byddai'r model ailgylchu newydd arfaethedig yn fwy cadarn yn erbyn grym y farchnad na'r system ailgylchu bresennol.

Tra bydd grym y farchnad wastad yn ffactor, bydd y model newydd yn darparu cadernid ychwanegol i wasanaeth y Cyngor

- I gychwyn, mae'r Cyngor yn cynnig cynnal adolygiad o'i wasanaethau rheoli gwastraff o leiaf unwaith bob saith mlynedd, sy'n cyd-fynd ag oes gyfartalog cerbydau gwastraff.

Fodd bynnag, mae strategaethau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran rheoli gwastraff yn newid yn rheolaidd h.y. bydd ymgynghoriadau yn cael eu cynnal yn fuan ynghylch cynllun dychwelyd ernes a diwygio cyfrifoldeb cynhyrchwyr o ran deunydd pacio ac ati. Yn dibynnu ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau hyn, mae'n bosibl y bydd ffocws a blaenoriaethau rheoli gwastraff yn newid

- Roedd y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn edrych ar faterion yn ymwneud â dyluniad y Gwasanaeth Ailgylchu Gwastraff newydd, gan gynnwys y strategaeth addysg a chyfathrebu arfaethedig sy'n cael ei llunio cyn cyflwyno'r gwasanaeth newydd
- Gwneuthurwyr a'r llywodraeth ganolog sydd â'r pwerau i benderfynu ar y cynwysyddion a'r deunyddiau pacio sy'n cael eu cynhyrchu a'u gwerthu, mae cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yn canolbwyntio ar reoli gwastraff a gwaredu gwastraff yn foesebol.

Mae gwneuthurwyr a'r llywodraeth yn edrych ar y deunyddiau a ddefnyddir i greu cynnyrch pacio, gyda'r bwriad o leihau'r cynnyrch nad oes modd ei ailgylchu sy'n cael ei gynhyrchu. Un cynnig yw gosod trethi uwch ar eitemau pacio nad oes modd eu hailgylchu

- Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu bin compost i drigolion ar gais am bris â chymhorthdal
- Mae staff Strydwedd a Chynnal a Chadw Tiroedd wedi compostio'r holl wastraff gwyrdd a gasglwyd fel rhan o'u gwaith
- Er bod defnyddio cerbydau disel mawr i gasglu gwastraff ac ati yn effeithio ar ôl troed carbon y Cyngor, mae llosgi gwastraff a gwaredu gwastraff mewn modd amhriodol hefyd yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd ac ar berfformiad y Cyngor mewn perthynas â'r mynegai carbon

Ar ddiwedd y drafodaeth, roedd y Pwyllgor o'r farn bod y model ailgylchu newydd arfaethedig yn gam ymlaen cadarnhaol i'r Cyngor a'r amgylchedd lleol. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig bod y Cynllun Busnes ar gyfer y gwasanaeth newydd arfaethedig yn gadarn ac ymarferol.

Penderfynwyd: ar ôl ystyried canfyddiadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, Rheoli Gwastraff yng Nghymru: Ailgylchu Trefol, cefnogi ymateb Gwasanaeth Ailgylchu a Gwastraff y Cyngor i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adroddiad.

8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a gylchredwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion perthnasol.

Roedd copi o "ffurflen gynnig Aelodau" wedi'i chynnwys yn Atodiad 2. Dylid cyflwyno unrhyw gynnig i'r Cydlynnydd Craffu. Mae Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 ac mae tabl gyda chrynodeb o benderfyniadau diweddar y Pwyllgor a gwybodaeth am y cynnydd wrth eu rhoi ar waith wedi'i gynnwys yn Atodiad 4.

Cadarnhawyd dyddiad y cyfarfod nesaf, eglurwyd nad yw'r eitem arfaethedig ar Gartref Gofal Preswyl Dolwen wedi datblygu digon i gyflwyno adroddiad arni i'r Pwyllgor yn ystod cyfarfod mis Mawrth, ac felly bydd yr eitem yn cael ei rhoi ar raglen arall yn y dyfodol.

Cadarnhaodd y Cydlynnydd Craffu bod Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion yn cyfarfod yn y prynhawn, a bod modd ychwanegu adroddiadau pellach i'r rhaglen gwaith i'r dyfodol yn dilyn trafodaeth.

Mae rhestr o gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Grwpiau Her Gwasanaeth, ynghyd ag atodlen o'r cyfarfodydd yn 2018-19, wedi'i chynnwys yn y "Briff Gwybodaeth". Dywedodd y Cyng. Geraint Lloyd-Williams nad yw'n gallu mynychu cyfarfod nesaf y Grŵp Her Gwasanaeth y mae'n cynrychioli'r Pwyllgor arno. Yn dilyn trafodaeth, cytunodd y Cadeirydd i fynychu'r cyfarfod ar ran y Pwyllgor Craffu Perfformiad.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Dywedodd y Cyng. Rachel Flynn ac Ann Davies eu bod wedi mynychu cyfarfod Herio Perfformiad y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol. Bu iddynt fynegi pa mor addysgiadol a ddiddorol oedd y cyfarfod. Mae copïau o gofnodion y cyfarfod Herio Perfformiad hwn a chyfarfodydd Herio Perfformiad diweddar perthnasol eraill wedi'u dosbarthu i'r aelodau fel rhan o'r 'Briff Gwybodaeth'.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:10 p.m.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr)
Martyn Holland